

# Cyngor Cymuned Llangywer

---

## Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangywer

11 Rhagfyr, 2012

**Presennol:** Dafydd Williams (Cadeirydd), Linda Morris (is-gadeirydd), Gwyn Roberts, John Morris, Emyr Jones, Y Cyngorydd Alan Evans, Lis Puw (Clerc)

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Olwen Jones ac Eleri Jones.
2. Nid oedd neb yn datgan buddiant mewn unrhyw fater ar yr agenda.
3. Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod Medi 10, 2012.

#### 4. Materion yn codi o'r Cofnodion

**4.1.** Ysgrifennwyd i ddiolch i Huw Antur am ei gyflwyniad ar Partneriaeth Penllyn .

**4.2.** Ymatebwyd i'r ymgynghoriad ar newidiadau i'r gwasanaeth gan Betsi Cadwaladr, yr ymgynghoriad ar sieciau, a'r ymgynghoriad ar hawl i Gynghorau hybu lles.

**4.3. Mater torri gwrychoedd:** adroddodd y Cyng. Alan Evans i lawer o'r gwaith cael ei wneud, ond y byddai'n sôn ymhellach am y darn wrth "y trip" yn Rhosygwaliau, ac awgrymu mai plygu'r gwrych fyddai'n ateb y broblem yn y fan honno.

**4.4.** Adroddodd yr Is-Gadeirydd fod y cais am grant i uwchraddio toiledau'r neuadd wedi bod yn llwyddiannus ac y byddai'r gwaith yn dechrau'n fuan.

#### 5. Trafodwyd Gohebiaeth :

Cyngor Gwynedd: Ymgynghoriad ar reoleiddio baw cŵn ac Ymgynghoriad ar Wasanaeth y Priffyrdd - Clerc wedi ymateb; derbyn gwybodaeth ar waith ar ffyrdd Tachwedd a Rhagfyr; derbyn llyfryn "Agor y Gist".

Parc Cenedlaethol Eryri: derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i gais cynllunio Ffynnon Gywer; trafod ymateb y Prif Weithredwr i llythyr y Cyngor am y sylw a roddir i farn leol mewn achosion o geisiadau cynllunio; derbyniwyd ymateb Parc Cenedlaethol Eryri i fater ymestyn maes carafanio Pantyronnen. Trafodwyd cais Parc Cenedlaethol Eryri am wybodaeth Cyngorwyr o'r defnydd gan garafanau a phebyll o dir Bwch yn Uchaf. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu i fynegi y bu cynnydd sylweddol iawn yn y defnydd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Un Llais Cymru: Derbyniwyd copïau o'r "Llais", a oedd yn cynnwys llun o Gyngor Cymuned Llangywer ac erthygl am Bartneriaeth Penllyn . Derbyniwyd gwybodaeth am y Cyfarfod Ardal nesaf a chytunodd y Cadeirydd i'w fynychu.

Arall: Darllenwyd llythyr Cymdeithas yr Iaith am rali i'w gynnal yn dilyn cyhoeddi canlyniadau'r cyfrifiad; cytunwyd i drafod apêl Eisteddfod Dinbych yn y cyfarfod nesaf; derbyniwyd llythyr o ddiolch am y cyfraniad o £500 tuag at apêl Llangywer a Rhosygwaliau am arian i Eisteddfod yr Urdd, Meirionnydd. Cytunodd y Clerc i ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Lywodraeth Leol.

# Cyngor Cymuned Llangywer

---

## 6. Claddu:

6.1. Derbyniwyd cais i gladdu llwch y diweddar Catherine Lloyd, merch y Parch Humphrey Lloyd a Mrs Catherine Maria Lloyd ym mynwent Rhosygwaliau. Yn sgil hyn, derbyniwyd gwybodaeth mai'r Eglwys sydd berchen rhan o'r fynwent, a'r Cyngor Cymuned sydd berchen rhan arall. Nid oedd gan y Cynghorwyr gof iddynt erioed drafod Mynwent Rhosygwaliau.

6.2. Derbyniwyd cais i gladdu llwch Bryn Meirion Evans, a fu farw yn Sbaen yn ddiweddar, ym mynwent Llangywer. Mae Bryn Evans i'w weld yn un o'r lluniau sydd yn y Neuadd.

## 7. Materion ariannol:

7.1. Derbyniwyd derbynneb gan Hacker Young.

7.2. HMRC – derbyniwyd gwybodaeth am y drefn newydd o Ebrill 2013.

7.3. Mae cais y Cyngor i Gyngor Gwynedd ar gyfer digolledu'r fynwent yn derbyn sylw.

7.4. Cytunwyd i dalu costau'r Clerc am y flwyddyn 2012.

7.5. Cytunwyd i dalu am dorri gwair mynwent Llangywer. Er mwyn bod mewn trefn, bydd angen gofyn am dendrau ar gyfer y gwaith hwn yn y flwyddyn newydd.

7.6. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.

8. **Partneriaeth Penllyn** – derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr ar y sefyllfa ddiweddaraf. Dewiswyd W D Williams a Gwyn Roberts o Gyngor Llangywer fel Cyfarwyddwyr ar Gwmni Cyfyngedig dan Warant Partneriaeth Penllyn.

## 9. Unrhyw Fater Arall:

9.1. Mae'r bin mawr wrth Tŷ Isaf yn chwythu i'r ffordd pan fo'n wag ac yn beryg o achosi damwain. Cynigiodd y Cyngor Alan Evans i dynnu sylw'r Adran berthnasol.

9.2. Mae trafndiaeth drom loriau cario coed wedi tyllu'r ffordd rhwng Pantronnen a Choed y Glyn. Cynigiodd y Cyngor Alan Evans i dynnu sylw'r Adran berthnasol.

*Amser gorffen: 9.00pm*